Gwasanaeth Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales
Fire and Rescue Service

# CYNLLUN CORFFORAETHOL

2020 | 2025

www.tancgc.gov.uk

# YN YSTOD Y PUM MLYNEDD DIWETHAF

DELIWYD Â

**2951** O DANAU MEWN TAI

**1076** O DANAU ANNOMESTIG

**4118** O DANAU GLASWELLT A CHOEDWIG

**4919** O DDAMWEINIAU TRAFFIG FFYRDD

**1694** O LIFOGYDD

**12566** O YMATEBION MEDDYGOL

RYDYM WEDI

CYNNAL **92,069** O ARCHWILIADAU DIOGELWCH YN Y CARTREF YN Y GYMUNED

CYNNAL **7783** O ARCHWILIADAU DIOGELWCH TÂN BUSNESAU

YMWNEUD Â **187,654** BOBL IFANC trwy raglenni addysgol ac atal

---

RYDYM YN YMATEB I TUA **13516** O DDIGWYDDIADAU BOB BLWYDDYN

*Rydym yn gwasanaethu* **12000** CILOMETR SGWÂR

**58** O ORSAFOEDD TÂN

**1300** O STAFF

# "COST HYN OLL? DIM OND"

Y DYDD
**14c**

Y MIS
**£4**

Y FLWYDDYN
**£52**

## Y Bwrdd Gweithredol

Y Bwrdd Gweithredol yw tîm uwch-reolwyr y Gwasanaeth, dan arweiniad y Prif Swyddog Tân, gyda chymorth y Dirprwy Brif Swyddog Tân, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol a Phrif Swyddog Cynorthwyol.



Chris Davies QFSM MBA
Prif Swyddog Tân
*Pennaeth y Gwasanaeth â Thâl*



Roger Thomas
Dirprwy Prif Swyddog Tân
*Cyfarwyddwr Cyflenwi Gwasanaethau*



Iwan Cray
Prif Swyddog Tân Cynorthwyol
*Cyfarwyddwr Gweithredol Cefnogaeth a Gwelliant*



Kevin Jones
Prif Swyddog Cynorthwyol
*Cyfarwyddwr Adnoddau*

## Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mae Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn cynnwys 25 o aelodau etholedig sy'n cynrychioli'r chwe Awdurdod Lleol yn ardal canolbarth a gorllewin Cymru.



Y Cyng.
Jan Curtice
*Cadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru*



Y Cyng.
Elwyn Williams
*Dirprwy Gadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru*

**Rhagarweiniad** 6

Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru 8

Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru 9

Gweledigaeth, Cenhadaeth a Gwerthoedd 10

**Ein Cynlluniau** 12

**Datganiad ynghylch Llesiant** 14

**Ein Nodau Strategol (2020/2025) a'n Hamcanion Gwella a Llesiant (2020/2021)** 18

**Ein Perfformiad** 20

**Datblygu ein Cynllun Corfforaethol (2020/2025)** 21

**Ein Nodau Strategol** 22

Ein Pobl 24

Ein Cymunedau 30

Ein Hamgylchedd 36

Ein Dyfodol 42

**Rhagor o wybodaeth** 48

**75% wedi'i ailgylchu**
Cyhoeddwyd ar bapur mae 75% ohono wedi'i ailgylchu

JR0943 - Cynllun Corfforaethol 20-25

HOFFI DILYN RHANNU
LIKE FOLLOW SHARE

**Ein Negeseuon Diogelwch**
Our Safety Messages

# Rhagarweiniad




Rydym yn falch dros ben o gael cyflwyno ein Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2020-2025. Mae ein Cynllun Corfforaethol yn disgrifio ein gweledigaeth ar gyfer y dyfodol, sef "bod yn Arweinydd Byd ym maes Ymateb i Argyfwng a Diogelwch Cymunedol". Rydym yn hyderus y bydd ein Nodau Strategol a'n Hamcanion Gwella a Llesiant yn fodd i ni gyflawni ein dyletswyddau statudol a chyfrannu, ar ben hynny, at gyflawni gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Er gwaetha'r cyfyngiadau cyllidebol, rydym wedi parhau i gynnal lefel gwasanaeth sydd wedi sicrhau bod cymunedau canolbarth a gorllewin Cymru yn parhau i fod yn fannau diogel i fyw, gweithio ac ymweld â nhw.

Dros y pum mlynedd ddiwethaf (01/04/2013 tan 31/03/2018), rydym wedi ymateb i 2,948 o danau mewn tai, sy'n ostyngiad o 2.3% o gymharu â'r pum mlynedd flaenorol. Yn ystod yr un cyfnod, mae nifer y Gwrthdrawiadau Traffig Ffyrdd yr ymatebwyd iddynt wedi gostwng gan 5.1%, gan leihau o 5,202 i 4,939. Mae nifer y llifogydd yr ymatebwyd iddynt wedi gostwng 3.1%, o 1,749 i 1,694.

Er ein bod yn ymateb i lai o ddigwyddiadau traddodiadol a gysylltir â'r gwasanaeth tân, o ganlyniad i'n gwaith ataliol yn y gymuned, rydym wedi cynnal 93,064 o Archwiliadau Diogelu Rhag Tân yn y Cartref ac wedi ymgysylltu â 187,654 o blant a phobl ifanc trwy ein rhaglenni addysg yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf, rydym wedi parhau i ehangu ein gallu i ymateb yn weithredol. Mae ein diffoddwyr tân wedi ymateb i 12,563 o ddigwyddiadau lle'r oedd angen ymateb meddygol yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf.

Ein Gweledigaeth:-


**Bod yn arweinydd byd ym maes ymateb i argyfwng a diogelwch cymunedol.**

Mae hwn yn ostyngiad o 1.6% o gymharu â'r pum mlynedd flaenorol.

Cyflawnwyd hyn oll ac arbedwyd £9 miliwn ar yr un pryd, sy'n rhyw 20% o'n cyllideb gyffredinol (er 2006), heb effeithio ar y gwasanaeth a ddarparwyd. Fodd bynnag, ni ellir osgoi'r ffaith y bydd yr hinsawdd ariannol rydym yn gweithio ynddo yn parhau i roi pwysau ychwanegol ar lefel y gwasanaeth a ddarparwn, wrth i ni ymestyn ein hadnoddau ymhellach eto. Felly, byddwn yn parhau i chwarae ein rhan mewn toriadau cyllidebol yn y dyfodol, trwy gynnal trafodaeth barhaus ac agored â'n staff a chyda'r cyhoedd, ynghylch sut y gallwn barhau i wneud gwelliannau ac arbedion effeithlonrwydd yn y dyfodol.

Rydym wedi ymrwymo i addasu i'r heriau hyn mewn dull cadarnhaol ac mae ein Cynllun Corfforaethol 2020-2025 yn pennu ein nodau strategol a'n hamcanion gwella a llesiant am y pum mlynedd nesaf. Credwn y bydd cydweithio'n allwedd i ddyfodol y gwasanaethau brys er mwyn gallu cyflawni amcanion ar y cyd yn llwyddiannus, gan ein galluogi i wella ein ffordd o weithio; rhannu ein pobl a'n hadnoddau ariannol; ac arbed mwy o fywydau yn y pen draw. Rydym wedi ymrwymo hefyd i gael hyd i atebion arloesol i wella ein ffordd o weithio, gwella diogelwch diffoddwyr tân, lleihau ein heffaith ar yr amgylchedd a chyfrannu, yn y pen draw, at lesiant ein cymunedau.

Sylweddolwn fod gwrando ar eich sylwadau chi yn hollbwysig, os yw'r Gwasanaeth am barhau i ddarparu gwasanaeth effeithiol, effeithlon a gwell, i'ch cadw chi a'ch teuluoedd yn ddiogel. Byddem yn eich annog chi i gyd i roi eich barn ar ein nodau strategol a'r amcanion gwella a llesiant rydym wedi ymrwymo iddynt ar gyfer 2020-2025.



# Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

Crëwyd y Gwasanaeth yn 1996 trwy Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994, yn sgil uno Brigadau Tân Dyfed, Powys a Gorllewin Morgannwg.

Mae'r Gwasanaeth yn cynnwys bron i ddau draean o Gymru, gan gwmpasu ardal wledig yn bennaf:

| GWASANAETHU | CYDYMFFURFIO | YN CYFLOGI |
|---|---|---|
| **4500** | **58** | **1300** |
| CILOMETR SGWÂR | GORSAF DÂN | STAFF |

Hwn yw'r gwasanaeth mwyaf ond dau yn y Deyrnas Unedig, ar ôl Gwasanaeth Tân yr Alban a Gwasanaeth Tân Gogledd Iwerddon.

Ceir amrywiaeth o risgiau yn ardal y Gwasanaeth, sy'n amrywio o'r diwydiannau petrocemegol yn Aberdaugleddau i'r risgiau sy'n gysylltiedig ag ardaloedd poblog fel Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot. Hefyd, mae cymuned ffermio fawr a llawer o ddiwydiannau ysgafn eraill ar draws yr ardal.

Mae'r rhain, yn ogystal â'r arfordir helaeth a dyfrffyrdd mewndirol, yn creu rhai o'r risgiau arbenigol a geir yn ardal y Gwasanaeth.



# Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mae Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn cynnwys 25 o aelodau etholedig sy'n cynrychioli'r chwe Awdurdod Lleol yn ardal canolbarth a gorllewin Cymru.

Mae'n atebol i'r cyhoedd ac mae ganddo gyfrifoldeb statudol i gynnal gwasanaeth tân ac achub ar gyfer ein cymunedau, yn unol â'r ddeddfwriaeth a'r rheoliadau canlynol:

- Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994;
- Gorchymyn Canolbarth a Gorllewin Cymru (Cynllun Cyfuno) 1995;
- Deddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004;
- Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005;
- Gorchymyn Cynlluniau Cyfunol y Gwasanaethau Tân ac Achub (Amrywio) Cymru 2009;
- Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009;
- Fframwaith Cenedlaethol y Gwasanaethau Tân ac Achub 2016;
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am y Gwasanaeth, yr Awdurdod Tân a chyfrifoldebau ein Bwrdd Gweithredol trwy fynd i'n gwefan: **www.tancgc.gov.uk.**

Ein Gweledigaeth:

**Bod yn arweinydd byd ym maes ymateb i argyfwng a diogelwch cymunedol**


Ein Cenhadaeth:

**Ymgysylltu, Cysylltu, Datblygu ac Ysbrydoli pobl i ddarparu Gwasanaeth rhagorol**

Ein Gwerthoedd:

- **Gwneud y peth iawn**
- **Trin pobl â pharch**
- **Perfformio'n rhagorol**

# Gweithio tuag at ein 4 Nod Strategol a'n Hamcanion Gwella a Llesiant yn 2020-2021





# Ein Cynlluniau

I ddarllen ein cynlluniau, ewch i'n gwefan: **www.tancgc.gov.uk**

## Cynllun Corfforaethol

Mae ein Cynllun Corfforaethol yn disgrifio ein gweledigaeth ar gyfer y dyfodol a'r modd y byddwn yn ei gwireddu trwy ein nodau strategol a'n hamcanion gwella a llesiant.

## Asesiadau Blynyddol o Berfformiad

Erbyn diwedd Hydref bob blwyddyn, rydym yn cyhoeddi ein Hasesiad o Berfformiad Blynyddol. Mae ein Hasesiad Blynyddol o Berfformiad yn rhoi gwybod i'n staff, ein cymunedau a'n rhanddeiliaid pa ganlyniadau a buddion a gyflawnwyd mewn perthynas ag amcanion gwella a llesiant y flwyddyn flaenorol.

Mae ein Hasesiad Blynyddol o Berfformiad hefyd yn nodi'r modd yr ydym wedi cyfrannu at y nodau llesiant, a bennwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

## Cynllun Cynaliadwyedd a'r Amgylchedd

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi ymrwymo i arddel cynaliadwyedd wrth ddarparu gwasanaethau rhagorol. Ein nod yw cyflawni hynny trwy ddefnyddio llai o ynni, gweithio tuag at fod yn ddiwastraff o ran safleoedd tirlenwi a lleihau ôl troed carbon y Gwasanaeth cyfan, o'r naill flwyddyn i'r llall.

Mae ein Strategaeth Cynaliadwyedd a'r Amgylchedd yn disgrifio'r prif egwyddorion, y cynigion a'r camau gweithredu y mae gofyn eu cymryd, er mwyn lleihau effaith gwaith a gweithrediadau'r Gwasanaeth ar yr amgylchedd.



## Cynllun Cydraddoldeb Strategol

Mae ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn cyfleu ymrwymiad parhaus yr Awdurdod a'r Prif Swyddog Tân i hyrwyddo cyfleoedd cyfartal ar draws holl swyddogaethau, polisïau, arferion a gweithdrefnau Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru ac yn disgrifio'r modd y bydd y Gwasanaeth yn ceisio cyflawni'r ymrwymiad hwn. Rydym yn gweithio i ddarparu amgylchedd lle y bydd cyfle cyfartal i bawb weithio, dysgu a byw, heb ddim gwahaniaethu na rhagfarn.

**http://www.mawwfire.gov.uk/Cymraeg/Amdanom-Ni/Sut-Rydym-yn-ei-Wneud/Pages/Cydraddoldeb-ac-Amrywiaeth.aspx**

## Y Gymraeg

Fel Gwasanaeth, rheolir ein gwaith gan ddeddfwriaeth ar ddefnyddio'r Gymraeg ac mae'n rhaid i ni gydymffurfio â chasgliad o Safonau'r Gymraeg a bennwyd yn genedlaethol. Rydym wedi ymrwymo i hyrwyddo'r Gymraeg yn ymarferol a sicrhau na chaiff yr iaith ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Cyhoeddodd Comisiynydd y Gymraeg Hysbysiad Cydymffurfio sy'n disgrifio'r safonau sy'n berthnasol i Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, ynghyd â'r eithriadau a bennwyd, a'u dyddiadau gweithredu. Mewn ymateb i'r Hysbysiad Cydymffurfio, cyhoeddodd yr Awdurdod ddogfen yn nodi'r modd y mae'n bwriadu cydymffurfio â'r safonau ar lefel gorfforaethol a'r prosesau mewnol sydd ganddo ar gyfer goruchwylio a monitro gweithrediad y safonau. Mae'r ddwy ddogfen hyn ar gael ar ein gwefan allanol.

**http://www.mawwfire.gov.uk/Cymraeg/Amdanom-Ni/Sut-Rydym-yn-ei-Wneud/Pages/Safonaur-Gymraeg.aspx**

Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015

# Datganiad Llesiant

> Rydym wedi ymrwymo i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ac yn croesawu ein dyletswyddau a'n rôl fel partner statudol ar ein chwe Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Rydym yn deall diben a nod y Ddeddf ac wedi ymrwymo i sicrhau ein bod yn ystyried effaith hirdymor ein penderfyniadau ar y cymunedau a wasanaethwn.

Mae ein Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2020-2025 yn amlinellu ein nodau strategol ar gyfer y pum mlynedd nesaf, a'n hamcanion gwella a llesiant ar gyfer 2020/21. Rydym wedi sicrhau bod ein hamcanion gwella a llesiant wedi'u datblygu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'u bod yn ymgorffori'r pum ffordd o weithio.

Datblygwyd ein hamcanion gwella a llesiant trwy gyfres o weithdai â'n staff, aelodau etholedig a chyrff cynrychioliadol, ac fe'u trafodwyd hefyd gan Bwyllgorau Craffu'r Cynghorau fel rhan o gyfnod ymgynghori ehangach. O ganlyniad i'r broses ymgynghori hon, rydym yn hyderus bod ein hamcanion gwella a llesiant ar gyfer 2020/21 yn cyfrannu at ofynion y Ddeddf.

Ar hyd y cynllun hwn, amlygwn sut y mae ein hamcanion gwella a llesiant yn cyfrannu at y saith nod llesiant, gan ddangos sut y mae pob un yn ein helpu i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

Byddwn yn sicrhau felly ein bod ni, wrth wneud penderfyniadau, yn rhoi ystyriaeth i'r effaith y gallai'r penderfyniadau ei chael ar fywydau pobl yng Nghymru yn awr ac yn y dyfodol. Byddwn hefyd yn cofio rhoi ystyriaeth ddyledus i'r amrywiaeth arbennig o bobl yng nghanolbarth a gorllewin Cymru ac yn parhau i gydweithio ag eraill er mwyn helpu'r Awdurdod i gyflawni'i amcanion a helpu eraill i gyflawni eu hamcanion hwy ar y llaw arall.



# Egwyddor Datblygu Cynaliadwy

## Hirdymor

Pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a'r angen am ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd.

*Beth yr ydym yn ei wneud i fodloni'r egwyddorion hyn?*

Byddwn yn parhau i edrych ar dueddiadau hirdymor a dadansoddi ein camau gweithredu, er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau a ddarparwn yn rhagweithiol yn hytrach nag yn adweithiol, a'u bod felly yn ateb gofynion ein cymunedau a'n rhanddeiliaid yn well trwy wneud ein cymunedau mor ddiogel â phosibl heb beryglu anghenion cenedlaethau'r dyfodol.

Rydym wedi ymgorffori meddylfryd hirdymor yn ein harferion busnes a'n hamcanion gwella a llesiant a byddwn yn parhau i fabwysiadu dull sganio'r gorwel yn rhan o'n prosesau cynllunio. Wrth bennu ein hamcanion gwella a llesiant, rydym wedi sicrhau ein bod yn gweld ac yn monitro tueddiadau i'r dyfodol a heriau hirdymor a fydd yn cael effaith niweidiol ar y gwasanaethau a ddarparwn. Byddwn yn parhau i addasu ac amrywio ein gweithgareddau er mwyn ateb anghenion ein cymunedau yn well, ynghyd â gwella ein ffordd o ateb anghenion y bobl sy'n byw ac yn gweithio yn ein cymunedau a'r bobl sy'n ymweld â nhw, a'u gwneud yn fwy diogel.

## Atal

### Atal problemau rhag digwydd neu waethygu.

*Beth yr ydym yn ei wneud i fodloni'r egwyddorion hyn?*

Mae atal, diogelu ac ymyrraeth gynnar yn flaenoriaeth i ni o hyd, ac rydym wedi ymrwymo i wneud y cymunedau a wasanaethwn mor ddiogel â phosibl, trwy adolygu ac addasu ein gwasanaethau ymyrraeth yn barhaus.

Byddwn yn parhau i ddarparu ein gwasanaethau mewn modd rhagweithiol, integredig a chydweithredol, trwy weithio'n agos â sefydliadau partner newydd a'n rhai presennol i ddarparu negeseuon diogelwch penodol, a chael yr effaith gadarnhaol fwyaf ar ein cymunedau.

Mae ein gwaith atal yn canolbwyntio ar atal problemau rhag digwydd neu waethygu trwy sicrhau bod ymyrraeth gynnar yn digwydd a bod ein cymunedau'n cael cymaint o wybodaeth â phosibl.

## Integreiddio

### Ystyried sut y gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar eu hamcanion, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.

*Beth yr ydym yn ei wneud i fodloni'r egwyddorion hyn?*

Rydym wedi defnyddio dull gweithredu integredig wrth ddatblygu ein hamcanion gwella a llesiant, gan gredu y bydd gweithio mewn modd mwy integredig yn caniatáu i ni ddatrys problemau'n fwy effeithiol ac effeithlon.

Trwy ddefnyddio dull gweithredu cytûn i fanteisio hyd yr eithaf ar gyfleoedd, a chydweithio â'n partneriaid a'n rhanddeiliaid, byddwn yn osgoi dyblygu ymdrech ar draws sefydliadau'r sector cyhoeddus ac yn rhannu adnoddau, dysgu a gwybodaeth yn ogystal, er lles ein cymunedau a chenedlaethau'r dyfodol.

## Cydweithio

Gallai cydweithredu ag unrhyw berson arall (neu wahanol adrannau yn y corff cyhoeddus ei hun) helpu'r corff i fodloni ei amcanion llesiant.

*Beth yr ydym yn ei wneud i fodloni'r egwyddorion hyn?*

Mae cydweithio â'n partneriaid yn allweddol bwysig i ni fel Gwasanaeth Tân ac Achub. Rydym yn cydweithio â Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru mewn nifer o ffyrdd ac rydym wedi mabwysiadu dull gweithredu "Cymru gyfan" mewn nifer o feysydd.

Yn ogystal, nodwyd y dulliau darparu mwyaf costeffeithiol ac effeithlon ar draws y tri Gwasanaeth Tân ac Achub mewn sawl maes pwnc trwy'r dull cydweithredol hwn. Deallwn fod cydweithio'n agos â'n partneriaid yn sicrhau bod ein negeseuon yn cael cymaint o effaith â phosibl ar ein cymunedau ac yn darparu negeseuon diogelwch trwy ddull gweithredu cytûn.

Felly, byddwn yn parhau i ddatblygu perthnasoedd presennol a chwilio am gyfleoedd newydd i ddatblygu partneriaethau newydd a phartneriaethau presennol er mwyn gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o'n hasedau.

## Cynnwys

Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal y maent yn ei gwasanaethu.

*Beth yr ydym yn ei wneud i fodloni'r egwyddorion hyn?*

Rydym wedi ymgynghori'n helaeth â'n rhanddeiliaid, sefydliadau sy'n bartneriaid i ni a'r cyhoedd. Byddwn yn ymgysylltu'n llawn â chymunedau lleol trwy gyfrwng digwyddiadau ac ymgyngoriadau, gan eu hannog i gyfrannu i'r penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.

Mae hyn yn annog sgwrs ddwy ffordd ac yn sicrhau hefyd y cânt roi barn ar y ffordd rydym yn cyflawni ein hamcanion gwella a llesiant. Mae annog y cyhoedd i gyfrannu a chymryd rhan yn y penderfyniadau a wnawn yn bwysig dros ben i ni.

# Bydd ein nodau strategol a'n hamcanion gwella a llesiant yn helpu i gyflawni'r saith nod llesiant mewn nifer o ffyrdd.

Bydd ein cyfraniad at gyflawni Cymru lewyrchus yn cynnwys darparu mwy o wybodaeth a chymorth ym mhob cyswllt pan fyddwn yn ymweld â phobl yn ein cymunedau er mwyn cadw pobl yn fwy diogel yn eu cartrefi. Byddwn yn cyfrannu hefyd at gyflawni Cymru lewyrchus trwy reoli'n hasedau mewn modd gwell, mwy costeffeithiol ac effeithlon, gan adeiladu ar sail cydberthnasoedd presennol a chwilio am gyfleoedd newydd i ddarparu'r budd mwyaf i'r gymuned, gwella ein cyfraniad i'r economi leol a lleihau'r costau i gymdeithas.

Cyflawnir cyfraniadau at **Gymru gydnerth** trwy ystyried technoleg ac arloesi newydd yn ein gwasanaeth. Byddwn yn dod i ddeall ein heffaith ar yr amgylchedd yn well hefyd er mwyn lleihau ein hôl troed carbon, wrth i ni barhau i ddarparu gwasanaeth o safon uchel.

Cyflawnir **Cymru iachach** trwy gynyddu cysylltedd a digido, a fydd yn helpu'r Gwasanaeth i ddarparu ein gwasanaeth brys a'n gwasanaethau diogelwch cymunedol i'n dinasyddion gan sicrhau y gallwn ddarparu cyngor a chyflawni ein rhaglenni ymyrraeth er mwyn helpu unigolion i wella'u ffordd o fyw.

Cyflawnir ein cyfraniad at **Gymru o Gymunedau Cydlynus** trwy wella datrysiadau wedi'u digido a hyrwyddo technolegau gwybodaeth a chyfathrebu, trwy gyfrannu at hyrwyddo cysylltedd a gwella'r gwasanaethau a ddarparwn i'r cyhoedd.

Er mwyn helpu i greu **Cymru sy'n Fwy Cyfartal**, bydd ymyrraeth ar gyfer yr unigolion mwyaf agored i niwed yn flaenoriaeth i ni er mwyn gwella'u hamgylchiadau a rhoi cyngor iddynt i'w galluogi i wella eu ffordd o fyw.

Ein cyfraniad at **Gymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu** yw dal ati i annog a hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg yn ein maes gwasanaeth. Lle bydd hynny'n bosibl, byddwn yn hyrwyddo mynediad at ein gwasanaethau trwy ddefnyddio'r Gymraeg, er mwyn sicrhau bod ein rhanddeiliaid yn gallu cyfathrebu â ni yn eu dewis iaith. Byddwn hefyd yn parhau i annog ein gweithwyr i siarad eu dewis iaith yn y gweithle ac yn darparu cyfleoedd i weithwyr sydd am ddysgu Cymraeg.

> Rydym wedi sicrhau y datblygwyd camau gweithredu'r amcanion yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

Byddwn yn dylanwadu ar gyflawni **Cymru sy'n Gyfrifol** ar Lefel Fyd-eang trwy barhau i wneud newidiadau sylweddol er mwyn defnyddio llai o bapur wrth ein gwaith trwy annog pobl i gyflwyno pob gohebiaeth a dogfen trwy ddulliau electronig.

Fel y nodwyd yn y Ddeddf, mae'n rhaid i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ddefnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy i gyfrannu hyd yr eithaf at gyflawni'r saith nod llesiant cenedlaethol, trwy roi sylw i anghenion llesiant penodol yr ardal. Rydym yn croesawu'r egwyddor hon ac wedi ymrwymo'n llwyr i wneud y cyfraniad mwyaf posibl at gyflawni'r nodau llesiant fel partner statudol. O ganlyniad, rydym wedi rhoi ethos ar waith yn ein harferion busnes sy'n sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu hateb heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ateb eu hanghenion nhw.

Mae arwyddocâd yr amcanion sydd yng Nghynlluniau Llesiant pob un o'r chwe Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, yn cael ei adlewyrchu yn amcanion gwella a llesiant ein Gwasanaeth, sy'n sicrhau bod gweithio gyda'n partneriaid i ddarparu gwell canlyniadau ar gyfer ein cymunedau yn parhau i fod yn flaenoriaeth.

Yn ogystal ag ystyried Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wrth lunio'r cynllun hwn, rydym hefyd wedi cynnwys nifer o ffyrdd newydd o weithio wrth redeg y sefydliad o ddydd i ddydd. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn dylanwadu'n fawr ar 'edefyn aur' y Gwasanaeth. O'n cynlluniau datblygu unigol a'n strategaethau adrannol, i'n Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2020-2025, mae ethos y Ddeddf ym mlaen ein meddwl. Boed hynny wrth i ni ffurfio partneriaethau newydd; mabwysiadu dulliau sganio'r gorwel yn rhan o'n proses o gynllunio ar gyfer y dyfodol; neu gynnwys fframwaith prosiectau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wrth gyflawni ein prosiectau corfforaethol ein hunain, gallwch fod yn sicr y bydd anghenion y presennol yn cael eu diwallu, a hynny heb beryglu cenedlaethau'r dyfodol.

# Ein Perfformiad

Dros y degawd diwethaf, trwy gynllunio ar gyfer gwella a lleihau risg, gwelsom ostyngiad sylweddol yn nifer y digwyddiadau y cawsom ein galw iddynt, a gwell canlyniadau i'r rheiny yr effeithiwyd arnynt a'r cymunedau lle y maent yn digwydd.

Mae'r tabl yn dangos canran y gostyngiad yn nifer y digwyddiadau, anafiadau a marwolaethau dros y deng mlynedd ddiwethaf sy'n rhoi darlun clir o'n llwyddiant.

| | 2018/2019 Gwariant | Cyfartaledd 2009/10 i 2013/14 | Cyfartaledd 2014/15 i 2018-19 | Cyfartaledd Newid canrannol 2009/10 i 2018/19 | Targed 2022/2023 |
|---|---|---|---|---|---|
| **POB TÂN**<br>FRS/RRC/S/001 (i) | 3734 | 4473 | 3384 | -25.2% | -20% |
| **POB GALWAD TÂN DIANGEN**<br>FRS/RRC/S/001 (ii) | 4886 | 4814 | 4755 | -1.2% | -10% |
| **POB GWRTHDRAWIAD TRAFFIG FFYRDD**<br>FRS/RRC/S/001 (iii) | 870 | 1118 | 987 | -11.6% | -10% |
| **POB GALWAD ARALL**<br>FRS/RRC/S/001 (iv) | 3967 | 3384 | 4559 | 34.7% | Dim targed wedi'i osod |
| **MARWOLAETHAU AC ANAFIADAU DIFRIFOL O BOB TÂN**<br>FRS/RRC/S/002 (i) | 61 | 69 | 66 | -4.4% | -10% |
| **MARWOLAETHAU AC ANAFIADAU O BOB TÂN DAMWEINIOL**<br>FRS/RRC/S/002 (ii) | 51 | 62 | 58 | -6.2% | -10% |
| **CANRAN YR ACHOSION O DANAU MEWN ANHEDDAU A GYFYNGWYD YN YR YSTAFELL DARDDIAD.**<br>FRS/EFR/S/003 | 88.6% | 87.2% | 87.0% | -0.2% | Cynnal y targed o 87% os yn bosibl |

# Datblygu ein Cynllun Corfforaethol 2020-2025

Mae'r cynllun hwn yn amlinellu ein nodau strategol am bum mlynedd (2020-2025) a'n hamcanion gwella a llesiant ar gyfer 2020/2021.

Wrth ddatblygu ein cynllun corfforaethol ar gyfer 2020-2025, rydym wedi ystyried y canlynol:

- Y gwelliannau rydym wedi'u gwneud wrth gyflawni cynlluniau corfforaethol blaenorol.
- Yr hyn y mae ein cymunedau yn ei ddweud wrthym.
- Yr hyn y mae ein staff yn ei ddweud wrthym.
- Yr adnoddau sydd gennym.
- Barn ein partneriaid a phwysigrwydd cydweithio.
- Gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Y gofynion deddfwriaethol sy'n effeithio arnom, gan gynnwys y canlynol:

1. Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009;
2. Fframwaith Cenedlaethol y Gwasanaethau Tân ac Achub 2016;
3. Y Pwyllgor Materion Cenedlaethol;
4. Cymru Gydnerth;
5. Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ledled Cymru;
6. Safonau'r Gymraeg.

# Ein Nodau Strategol

## Mae ein nodau strategol (2020-2025) yn pennu cyfeiriad ein taith am y pum mlynedd nesaf.

Mae ein Gwasanaeth yn chwarae rôl allweddol bwysig yn y gymuned a datblygwyd ein nodau trwy ymgynghori â'r staff, cynrychiolwyr yr undebau llafur, uwch-swyddogion a'r aelodau o'n Hawdurdod, gan roi ystyriaeth i ofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Bydd ein nodau strategol ar gyfer 2020-2025 yn sicrhau ein bod yn parhau i ddarparu'r gwasanaethau gorau posibl i'n cymunedau.

Mae'r chwe nod strategol, a ddisgrifir yma yn manylu ar ein hymrwymiad i gyflawni targedau heriol mewn amgylchedd cymdeithasol, gwleidyddol ac ariannol sy'n newid yn gyson.

| Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 | Ein Nodau Strategol | | | |
|---|---|---|---|---|
| | UN | DAU | TRI | PEDWAR |
| ✓ Cymru lewyrchus | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| ✓ Cymru gydnerth | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| ✓ Cymru iachach | ✓ | ✓ | ✓ | |
| ✓ Cymru sy'n fwy cyfartal | ✓ | | | ✓ |
| ✓ Cymru o gymunedau cydlynus | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| ✓ Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | ✓ | ✓ | | |
| ✓ Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang | | ✓ | ✓ | ✓ |

## Nod Strategol 1:
## EIN POBL

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Byddwn yn sicrhau bod gan ein staff yr wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i ddarparu a datblygu ein gwasanaethau yn ddiogel. Byddwn yn sicrhau bod y galluoedd cywir ganddynt ar gyfer y dyfodol a'u bod yn gynrychiadol o'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.

## Nod Strategol 2:
## EIN CYMUNEDAU

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Byddwn yn gwella diogelwch a llesiant ein cymunedau trwy ymyrraeth gyfannol a thrwy ymgysylltu a'n partneriaid.

## Nod Strategol 3:
## EIN HAMGYLCHEDD

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Byddwn yn ceisio gwella ein harferion gwaith a'n gweithgareddau yn barhaus gan ystyried ein heffaith ar yr amgylchedd yn y tymor hir a'r tymor byr. Byddwn yn parhau i geisio lleihau ein hôl troed carbon ac yn parhau â'n hymchwil i dechnoleg werdd gynaliadwy ac adnewyddadwy ar gyfer ein fflyd a'n hadeiladau, wrth i ni chwilio am gyfleoedd i gydweithio er mwyn gwella ein heffaith ar yr amgylchedd.

## Nod Strategol 4:
## EIN DYFODOL

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Byddwn yn clustnodi ffyrdd arloesol o gryfhau a gwella ein prosesau busnes a'n dulliau cyflenwi gwasanaethau i'n cymunedau.

### Ein Hamcanion Gwella a Llesiant

Bob blwyddyn, fel rhan o'n proses gynllunio, rydym yn datblygu amcanion gwella a llesiant, a luniwyd i'n helpu i gyflawni ein nodau strategol. Mae ein hamcanion yn rhoi gwybod i'n staff, cymunedau a rhanddeiliaid pa fuddion a ddarperir iddynt yn y flwyddyn i ddod.

# Nod Strategol 1:
# EIN POBL

Byddwn yn sicrhau bod gan ein staff yr wybodaeth a'r sgiliau y mae arnynt eu hangen i ddarparu a datblygu ein gwasanaethau mewn modd diogel. Byddwn yn sicrhau bod ganddynt y galluoedd cywir ar gyfer y dyfodol, a'u bod yn gynrychioliadol o'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.

## Ble'r ydym ni nawr?

Mae Cydraddoldeb ac Amrywiaeth wrth wraidd diwylliant ein Gwasanaeth ac yn sail i bopeth a wnawn y mae ein cred yn ein pobl. Trwy waith yr adrannau Adnoddau Dynol, Datblygu Pobl a Darparu Hyfforddiant, nod y Gwasanaeth yw recriwtio, datblygu a chadw gweithlu medrus iawn, llawn cymhelliant a dwyieithog sy'n cynrychioli ac yn hyrwyddo amrywiaeth y cymunedau a wasanaethwn.

Mae darparu gweithle iach a diogel i'n gweithwyr yn hanfodol ar gyfer perfformiad effeithiol. Mae'r Gwasanaeth yn cefnogi ein holl weithwyr i gynnal eu ffitrwydd i fodloni gofynion ffisiolegol a seicolegol y rôl, gan gefnogi gweithwyr â'u hiechyd a'u lles cyffredinol trwy amrywiaeth o fentrau cyngor, arweiniad ac ymwybyddiaeth.

Rydym wedi mabwysiadu'r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer atal 'Trais yn erbyn Menywod, Camdriniaeth Ddomestig a Thrais Rhywiol', ac rydym yn rhan o'r Fframwaith hwn. Rydym hefyd wedi gweithredu rhaglen 'Golau-glas MIND' i gefnogi iechyd meddwl a lles yn y gweithle, gan ddarparu ymyrraeth gynnar a chymorth i'r rhai a allai profi heriau.

## Ble'r ydym ni am fod?

Rydym yn cydnabod bod ein rôl yn parhau i esblygu yn erbyn cefndir o bwysau ariannol parhaus i holl awdurdodau'r sector cyhoeddus. Bydd meddwl yn arloesol yn ogystal â ffyrdd newydd o weithio yn sicrhau bod gan ein gweithlu'r offer a'r sgiliau angenrheidiol y bydd eu hangen arnynt i barhau i ddarparu gwasanaeth sy'n diogelu unigolion ac yn lleihau risg yn y cymunedau a wasanaethwn.

Dim ond trwy gyflogi'r bobl iawn y mae modd gwella'n barhaus. Rydym am gael gweithwyr sy'n gynrychioliadol o'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu ac sydd wedi'u hyfforddi i'r safonau uchaf ym mhob agwedd ar y rôl y mae'n ofynnol iddynt ei chyflawni heddiw ac yn y dyfodol.

Rydym am wneud gwahaniaeth cadarnhaol yn yr hyn yr ydym yn ei wneud a sut yr ydym yn ei wneud er mwyn sicrhau ein bod yn cael yr effaith fwyaf posibl, a hynny trwy sicrhau bod y ffordd yr ydym yn gweithredu yn rhoi rhyddid i'n gweithwyr wneud cyfraniad gwerthfawr at ddarparu'r Gwasanaeth yn llwyddiannus.

## Sut y byddwn yn cyflawni ein Nod Strategol?

Byddwn yn:

**Gwella Amrywiaeth ein Gweithlu i fod yn fwy cynrychioliadol o'r cymunedau a wasanaethwn.**

Byddwn yn cyflawni hyn trwy wneud y canlynol:

- Mynd i'r afael yn rhagweithiol â thangynrychiolaeth a gwaharddiad yn y Gwasanaeth.
- Sicrhau bod ein staff yn ystyried cydraddoldeb wrth ddatblygu pob
- agwedd ar y Gwasanaeth, gan gynnwys mentrau, prosiectau a pholisïau newydd a datblygiadau gweithdrefnol.
- Parhau i sicrhau bod strwythur y sefydliad yn adlewyrchu anghenion ein Gwasanaeth a'n cymunedau trwy greu arferion gwaith hyblyg i gefnogi ffordd iach o fyw a chydbwysedd rhwng bywyd a gwaith.
- Ymgysylltu â chymunedau, rhanddeiliaid a phartneriaid o ran y rolau amrywiol sydd ar gael yn y Gwasanaeth Tân.

Y modd y byddwn yn mesur llwyddiant:

- Gwerthuso digwyddiadau gweithredu cadarnhaol sydd wedi'u hanelu at grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn ein gweithlu gweithredol ar hyn o bryd.
- Gwerthuso adborth yn sgil ymgysylltu â gweithwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, gyda'r nod o nodi unrhyw rwystrau posibl neu ymddangosiadol o ran symud ymlaen yn y Gwasanaeth, ynghyd â gwneud newidiadau perthnasol, fel y bo'n briodol.

Pryd:

- Bydd hyn yn cael ei gyflawni erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2020-2021.

## Ysbrydoli Cyd-gynhyrchu – cyfranogiad pawb.

Byddwn yn cyflawni hyn trwy wneud y canlynol:

- Sicrhau bod yr holl staff yn cael eu gwerthfawrogi a'u grymuso, a chydnabod bod gan bawb rywbeth i'w gyfrannu.
- Sicrhau bod yr holl weithwyr yn cyfrannu at ddarparu'r Gwasanaeth yn llwyddiannus, gan sicrhau eu bod wedi'u hyfforddi i'r safonau uchaf ac yn gallu cynnal eu cymhwysedd trwy ddatblygiad proffesiynol parhaus.
- Cydnabod bod gan staff gyfraniadau gwerthfawr i'w gwneud, a'u hannog i gymryd rhan yn y gwaith o ddylunio a darparu ein gwasanaethau.

Y modd y byddwn yn mesur llwyddiant:

- Monitro gwaith cynnal a chadw mewn perthynas â chymhwysedd gweithredol a hyfforddi staff, a hynny trwy gyfrwng systemau meddalwedd mewnol.
- Gwerthuso llwyddiant ymarferion a gynhelir gyda gwasanaethau golau glas eraill a sefydliadau partner.

Pryd:

- Bydd hyn yn cael ei gyflawni erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2020-2021.

### Beth y bydd hyn yn ei olygu i chi? Y rheswm y mae hyn yn bwysig i chi.

Bydd cynllunio gweithlu effeithiol, ynghyd ag arferion gwaith craffach a symleiddio prosesau gweinyddol yn barhaus, yn gwella effeithlonrwydd yn y Gwasanaeth.

Bydd ein dull gweithredu yn adnabod ac yn cynyddu potensial ein gweithlu trwy reoli a datblygu pobl yn effeithiol, gan gynnal diwylliant o berfformiad uchel, a gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o arian cyhoeddus.



# Nod Strategol 1:
# EIN POBL

Egwyddor Datblygu Cynaliadwy
**Pum Ffordd o Weithio.**

## Hirdymor

Pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a'r angen am ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd.

*Sut y mae'r nod strategol hwn yn cyfrannu at y pum ffordd o weithio?*

Bydd annog pobl i sylweddoli'r hyn y gallant ei wneud, nid yr hyn na allant ei wneud, a'u cynnwys fel partner cyfartal wrth wneud penderfyniadau, yn darparu cyfleoedd i wella'r gwasanaeth a ddarparwn yn barhaus.

Galluogi staff i ddeall yr hyn sy'n bwysig i bobl, eu cryfderau a chryfderau cymunedau ehangach, gan ddarparu atebion arloesol ar draws ffiniau sefydliadol..

## Atal

Sut y gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion.

*Sut y mae'r nod strategol hwn yn cyfrannu at y pum ffordd o weithio?*

Bydd cynlluniau gweithlu effeithiol yn sicrhau bod y bobl iawn gennym, wedi'u recriwtio a'u hyfforddi ac yn gweithio yn y mannau iawn i ddarparu gwasanaeth o'r safon uchaf i'n cymunedau. Bydd hyn yn sicrhau hefyd bod ein harferion recriwtio, datblygu a gweithio yn tyfu er mwyn ateb anghenion newidiol ein cymunedau.

## Integreiddio

Ystyried sut y gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar bob un o'u hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.

*Sut y mae'r nod strategol hwn yn cyfrannu at y pum ffordd o weithio?*

Trwy strategaeth Ein Pobl byddwn yn sicrhau bod gennym y bobl iawn a chanddynt yr wybodaeth, y sgiliau a'r cymwyseddau iawn i gyflawni eu rolau yn y Gwasanaeth, a'u bod nhw hefyd yn deall ein sefyllfa ni fel aelod statudol o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a'r cyfraniad ehangach a wnawn i lesiant ein cymunedau, y byddwn yn eu harfogi i gyfrannu iddo.

---

## Cydweithio

Gallai cydweithredu ag unrhyw berson arall (neu wahanol adrannau yn y corff cyhoeddus ei hun) helpu'r corff i fodloni ei amcanion llesiant.

*Sut y mae'r nod strategol hwn yn cyfrannu at y pum ffordd o weithio?*

Trwy gydweithio mewnol rhwng swyddogaethau a meysydd ymateb a chydweithio allanol ag asiantaethau sy'n bartneriaid i ni, byddwn yn sicrhau bod ein pobl yn cael cyfleoedd i gamau ymlaen a datblygu yn eu gyrfa, a dod yn fwy effeithiol wrth ddarparu gwasanaethau sy'n cyd-fynd ag anghenion ein cymunedau.

Bydd yn fodd hefyd i rannu arferion da ar draws sefydliadau a sectorau er mwyn sicrhau y defnyddir yr arferion gorau yn unig wrth reoli pobl.

---

## Cynnwys

Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal y maent yn ei gwasanaethu.

*Sut y mae'r nod strategol hwn yn cyfrannu at y pum ffordd o weithio?*

Bydd ymgysylltu â'r gweithlu, â'n partneriaid ac asiantaethau eraill i drafod y sgiliau a'r cymwyseddau sy'n ofynnol er mwyn gwasanaethu ein cymunedau yn well yn rhan annatod o waith ein hadrannau hyfforddi a datblygu. Mae hyn yn rhan o'r strategaeth pobl hefyd er mwyn sicrhau bod ein sgiliau'n datblygu er mwyn bodloni gofynion y Gwasanaeth yn awr ac yn y dyfodol.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

# Nod Strategol 1:
# EIN POBL

Crynodeb o sut y mae'r Nod Strategol yn galluogi'r Gwasanaeth i gyflawni'r Nodau Llesiant .

## Cymru Lewyrchus

> *Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas.*

Bydd y Gwasanaeth yn parhau i goleddu egwyddor datblygu gweithwyr newydd a gweithwyr presennol trwy amrywiaeth o brentisiaethau a rhaglenni datblygu.

Trwy wneud hynny, byddwn yn sicrhau bod y gweithwyr hyn yn derbyn y cyfleoedd dysgu a datblygu gorau posibl, y gellir trosglwyddo llawer ohonynt i fannau gwaith eraill ac i'r cymunedau y mae ein staff yn byw ynddynt.

---

## Cymru Gydnerth

> *Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu inewid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd).*

Trwy barhau i gynnal bwlch sgiliau critigol isel ei risg, byddwn yn sicrhau bod staff gweithredol nid yn unig wedi derbyn hyfforddiant yn unol â'r canllawiau cenedlaethol a'r ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch ond eu bod hefyd yn cyflawni eu rolau ymateb yn gymwys ac yn effeithiol.

Bydd hyn, yn ei dro, yn caniatáu i'r personél ddarparu ymateb diogel ac effeithiol i'r cyhoedd pan fydd angen ac yn rhoi'r cyfle i ddinasyddion a chymunedau adfeddiannu'n fwy effeithiol.

## Cymru Iachach

> *Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deellir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol.*

Mae'r Gwasanaeth yn parhau i ymrwymo i ddarparu'r addysg, cymorth a chyngor angenrheidiol i'r holl weithwyr er mwyn sicrhau eu bod nid yn unig yn cyrraedd y lefelau ffitrwydd angenrheidiol sy'n rhan o ofynion y rôl weithredol, ond eu bod hefyd yn dilyn ffordd fwy cytbwys o fyw o ran eu hiechyd a'u lles cyffredinol.

---

## Cymru sy'n fwy Cyfartal

> *Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd).*

Trwy wella ein cyfathrebu mewnol a gwerthuso cyrsiau'n barhaus, byddwn yn nodi cyfleoedd i ddatblygu ein pobl mewn modd mwy cyfannol er mwyn eu helpu i gyrraedd eu llawn botensial, beth bynnag fydd eu cefndir neu eu hamgylchiadau.

---

## Cymru o Gymunedau Cydlynus

> *Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da.*

Trwy sicrhau datblygiad cyfannol ein pobl trwy gynlluniau gan Lywodraeth Cymru sy'n hyrwyddo dysgu ar draws sectorau, yn ogystal â rhaglenni datblygu a chyrsiau sy'n ystyried effaith ein gwasanaeth ar y cyhoedd, byddwn yn helpu i feithrin synnwyr o berthyn ac undod yn ein cymunedau.

---

## Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

> *Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden.*

Annog yr arfer o ddefnyddio'r Gymraeg ledled y Gwasanaeth a rhoi cyfle i staff ddysgu Cymraeg a chael deunydd cyfathrebu yn eu hiaith ddewisol.

# Nod Strategol 2:
# EIN CYMUNEDAU

Byddwn yn gwella diogelwch a llesiant ein cymunedau trwy ymyrraeth gyfannol a thrwy ymgysylltu a'n partneriaid.

## Ble yr ydym ni nawr?

Gwyddom fod ein dull gweithredu ataliol wrth ddarparu cyngor, addysg ac ymyrraeth diogelwch tân, ar draws ein Gwasanaeth yn cyfrannu i leihau nifer a difrifoldeb y digwyddiadau brys rydym ni'n ymateb iddynt.

Mae ein dull gweithredu'n cynnwys gweithio gydag ystod o bartneriaid yn y sector cyhoeddus i sicrhau ein bod yn cyflawni'r canlyniadau gorau ar gyfer ein cymunedau trwy ein hymgysylltiad.

Ochr yn ochr â'n gwaith atal, mae gennym drefniadau ar waith i gyflawni ein hymrwymiadau statudol o ran diogelu rhag tân sy'n cwmpasu'r gofynion diogelu rhag tân newydd a datblygol a nodwyd ar lefel Cymru ac ar lefel y Deyrnas Unedig, gan helpu i gadw busnesau yn ddiogel a sicrhau bod yr economi leol yn gynaliadwy.

## Ble yr ydym am fod?

Ein nod yw sicrhau ein bod yn dal i ddarparu'r addysg ac ymyrraeth orau posibl ar faterion atal tanau a diogelwch tân yn yr ardaloedd o'n cymuned lle gwelir yr effaith fwyaf cadarnhaol, gan gynnwys ehangu ein negeseuon, lle bydd hynny'n bosibl, er mwyn cwmpasu pynciau diogelwch a llesiant eraill i gefnogi ein partneriaid.

Mae ymwybyddiaeth o beryglon tân wedi cynyddu'n sylweddol yn y sector fusnes dros y blynyddoedd diwethaf a'n huchelgais fydd ehangu ein negeseuon traddodiadol ynghylch diogelwch tân i berchnogion busnesau er mwyn i'r ymgysylltiad ddarparu mwy o werth byth.

# Sut y byddwn yn cyflawni ein Nod Strategol?

Byddwn yn:

## Canolbwyntio ar ein Partneriaethau â rhanddeiliaid.

Byddwn yn cyflawni hyn trwy wneud y canlynol:

- Weithio gyda phartneriaid i nodi cyfleoedd i gynorthwyo ein gilydd i gyflawni amcanion llesiant y cytunwyd arnynt.
- Coladu a rhannu gwybodaeth am y strwythurau a'r llwybrau ar gyfer partneriaid allweddol i sicrhau bod ein negeseuon a rennir yn cael eu darparu ar draws sefydliadau.
- Cytuno ar gyflawniadau clir ar gyfer unrhyw bartneriaid.
- Sefydlu trefniadau rhannu data diogel er mwyn gwella diogelwch a lles dinasyddion.
- Adolygu a gwerthuso llwyddiant ein partneriaethau'n barhaus i leihau dyblygu a sicrhau bod ein trefniadau partneriaeth o werth i'n cymunedau.

Y modd y byddwn yn mesur llwyddiant:

- Darparu holiaduron adborth i'n Partneriaid er mwyn gwerthuso a yw ein negeseuon yn cyfrannu at welliannau o ran gwella eu mentrau diogelwch cymunedol;
- Cynnal gwerthusiad o'n trefniadau Rhannu Data Partner ar gyfer materion Diogelwch Cymunedol, a hynny er mwyn sicrhau eu bod yn effeithiol;
- Annog gwerthusiad ehangach o'n darpariaeth addysg a'n hymyraethau i alluogi gwelliant parhaus ar gyfer ein hymyraethau.

Pryd:

- Bydd hyn yn cael ei gyflawni erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2020-2021.

# Gwella ein Cyfathrebu â'n cymunedau a'n negeseuon allweddol.

Byddwn yn cyflawni hyn trwy wneud y canlynol:

- Codi ymwybyddiaeth y cyhoedd a phartneriaid o'n hagenda ataliol ledled pob maes ymyrraeth ac annog adborth ar ein gweithgareddau.
- Hyrwyddo ymgyrchoedd diogelwch lleol a chenedlaethol, gan gyfeirio ein hadnoddau at y meysydd sy'n cynrychioli'r risg fwyaf.
- Annog gwirfoddolwyr i gefnogi'r Gwasanaeth ar draws ystod o feysydd i wella ein darpariaeth ac i ddarparu sgiliau a phrofiadau gwerthfawr iddynt.
- Datblygu dulliau ymgysylltu sydd wedi'u cynllunio i gyrraedd ein cynulleidfa darged ac y gall pob un o'n gweithwyr eu defnyddio.
- Cydweithio â Gwasanaethau Tân ac Achub eraill yng Nghymru a phartneriaid eraill i sicrhau bod negeseuon diogelwch yn cael eu hyrwyddo'n gyson ac yn eang.
- Recriwtio a hyfforddi mwy o weithwyr i gefnogi ein hymyriadau ataliol.
- Defnyddio gwybodaeth am berfformiad a gwybodaeth o werthusiadau i hyrwyddo canlyniadau ein hymyriadau, ac i sicrhau ein bod yn darparu'r gwasanaethau y mae eu hangen ar ein cymunedau.

Y modd y byddwn yn mesur llwyddiant:

- Cynyddu nifer y gwirfoddolwyr i gefnogi'r gwaith o gyflawni ein gwasanaethau Diogelwch Cymunedol;
- Cynyddu nifer yr ymgyrchoedd diogelwch ar y cyd gan y tri Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru;

Pryd:

- Bydd hyn yn cael ei gyflawni erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2020-2021.

## Beth fydd hyn yn ei olygu i chi?
## Pam y mae hyn yn bwysig i chi?

Mae iechyd a diogelwch ein cymuned yn bwysicach nag erioed i'n Gwasanaeth. Mae buddsoddi mewn trefniadau atal a diogelu yn elfen hollbwysig o ddarparu cymdeithas ddiogel a chynaliadwy. Rydym yn sylweddoli na allwn gyflawni hyn ar ein pen ein hunain a dyna pam y mae ein gwaith parhaus â phartneriaid a'n gallu i addasu ar gyfer y risgiau newidiol mewn cymdeithas yn golygu bod y Gwasanaeth yn arwain y frwydr i gadw ein cymunedau yn ddiogel.

Gwasanaeth Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales
Fire and Rescue Service



# Nod Strategol 2:
# EIN CYMUNEDAU

Egwyddor Datblygu Cynaliadwy

**Pum Ffordd o Weithio.**

## Hirdymor

Pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a'r angen am ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd.

*Sut y mae'r nod strategol hwn yn cyfrannu at y pum ffordd o weithio?*

Mae gallu'r Gwasanaeth i ymateb ac i ddarparu gwasanaethau rheng flaen effeithiol ar gyfer atal a diogelu yn ein cymunedau yn bwysicach nag erioed ac oherwydd hynny rydym yn dal i ystyried risgiau newydd a risgiau sy'n dod i'r amlwg ac yn rhoi atebion cynaliadwy ar waith gyda'n partneriaid ar gyfer llwyddiant hirdymor.

## Atal

Sut y gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion.

*Sut y mae'r nod strategol hwn yn cyfrannu at y pum ffordd o weithio?*

Mae gan y Gwasanaethau Tân ac Achub hanes o lwyddiant wrth ddefnyddio strategaethau ataliol i roi gwybodaeth i gymunedau am risgiau tân er mwyn lleihau achosion o dân.

Rydym yn adeiladu ar y llwyddiant hwn yn barhaus trwy ddarparu negeseuon diogelwch ynghylch ystod ehangach o faterion sy'n cefnogi ein gwaith partneriaeth ehangach â'r sector cyhoeddus.

## Integreiddio

Ystyried sut y gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar bob un o'u hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.

*Sut y mae'r nod strategol hwn yn cyfrannu at y pum ffordd o weithio?*

Mae deall anghenion cymdeithasol yn allweddol ar gyfer darparu'r atebion mwyaf effeithiol a gwella diogelwch, iechyd a llesiant yn ein cymunedau a gwnaethom hynny a byddwn yn parhau i wneud hynny, trwy gydweithio'n agos â'n partneriaid yn y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a thrwy ein hymgysylltiad ehangach â'r trydydd sector.

---

## Cydweithio

Gallai cydweithredu ag unrhyw berson arall (neu wahanol adrannau yn y corff cyhoeddus ei hun) helpu'r corff i fodloni ei amcanion llesiant.

*Sut y mae'r nod strategol hwn yn cyfrannu at y pum ffordd o weithio?*

Mae ein Gwasanaeth yn gweithio'n effeithiol iawn i greu yn ogystal â hwyluso cynlluniau cydweithio ag ystod o bartneriaid. Mae'r ethos hwn yn cynnal y galw am gydgynhyrchu rhwng partneriaid yn y sector cyhoeddus er mwyn ateb anghenion cymunedau sy'n newid ac yn tyfu'n barhaus.

---

## Cynnwys

Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal y maent yn ei gwasanaethu.

*Sut y mae'r nod strategol hwn yn cyfrannu at y pum ffordd o weithio?*

Mae'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn wasanaeth cyhoeddus uchel ei gyflawniad sy'n adlewyrchu'i ddiwylliant cadarnhaol a chroesawus sydd wedi addasu i gyd-fynd â newidiadau a gofynion cymdeithasol modern. Mae'r dull gweithredu hwn wedi sicrhau bod gan y sefydliad y bobl iawn yn ymgysylltu'n iawn â'r gymuned ar bob cyfle.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

# Nod Strategol 2:
# EIN CYMUNEDAU

## Crynodeb o sut y mae'r Nod Strategol yn galluogi'r Gwasanaeth i gyflawni'r Nodau Llesiant

### Cymru Lewyrchus

*Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas.*

Gall gwella diogelwch trigolion a busnesau trwy raglenni ymwybyddiaeth, addysg ac ymyrraeth, yn ogystal â nodi cyfleoedd i ostwng troseddu, ddod â budd economaidd i boblogaeth wardiau, ardaloedd preswyl, cymunedau, busnesau ac ardaloedd ehangach.

---

### Cymru Iachach

*Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deellir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol.*

Trwy roi negeseuon penodol a pharhaus i bob grŵp oedran ar y cyd â'n partneriaid, byddwn yn cyfrannu at wella iechyd y boblogaeth yn ein cymunedau ac yn galluogi busnesau i ffynnu hefyd.

## Cymru Gydnerth

> *Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deellir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol.*

Trwy gyflawni ystod o drefniadau atal a diogelu ochr yn ochr â'n partneriaid, byddwn yn creu cysylltiadau cynaliadwy yn y gymuned ac yn cael effaith gadarnhaol ar fywydau pobl o ran cynyddu ymwybyddiaeth o risgiau tanau mewn cartrefi, mewn busnesau ac yn y gymuned ehangach, gan greu cymunedau mwy cydnerth sy'n llai dibynnol ar wasanaethau cyhoeddus.

---

## Cymru o Gymunedau Cydlynus

> *Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da.*

Trwy weithio gyda'n Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, byddwn yn gallu cyrraedd a chysylltu â phob rhan o'n cymunedau, dileu ffiniau ardaloedd llai difreintiedig a dileu'r stigma sy'n gysylltiedig ag enw gwael a record wael yng nghyswllt statws cymdeithasol-economaidd.

---

## Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

> *Cenedl sydd, wrth wneud unrhyw beth i wella llesiant Cymru yn economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol, yn ystyried a fydd gweithredu fel hyn yn cyfrannu'n bositif i lesiant byd-eang.*

Trwy ddeall ein cymunedau a chael dylanwad cadarnhaol ar eu diogelwch a'u lles ochr yn ochr â'n partneriaid, byddwn yn cyfrannu at greu amgylchedd cadarnhaol i bawb.

---

## Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

> *Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden.*

Mae'r gwasanaeth a ddarparwn ar gael yn ddwyieithog, ac rydym yn croesawu ac yn hyrwyddo ymgysylltiad trwy gyfrwng y Gymraeg.

# Nod Strategol 3:
# EIN HAMGYLCHEDD

Byddwn yn ceisio gwella ein harferion gwaith a'n gweithgareddau yn barhaus gan ystyried ein heffaith hirdymor a byrdymor ar yr amgylchedd. Byddwn yn parhau i geisio lleihau ein hôl troed carbon ac yn parhau â'n hymchwil i dechnoleg werdd gynaliadwy ac adnewyddadwy ar gyfer ein fflyd a'n hadeiladau, wrth i ni chwilio am gyfleoedd i gydweithio er mwyn gwella ein heffaith ar yr amgylchedd.

## Ble yr ydym ni nawr?

Fel Gwasanaeth, rydym wedi ymrwymo i leihau ein heffaith ar yr amgylchedd ym mhob agwedd ar ein gwaith ac arddel cynaliadwyedd amgylcheddol a thechnoleg werdd wrth wneud hynny. Rydym wedi ymrwymo i wella ein perfformiad amgylcheddol a rhoi ystyriaeth iddo ym mhob un o'n meysydd gwaith.

Mae ein Strategaeth Cynaliadwyedd a'r Amgylchedd 2015-2020 a'n Polisi Amgylcheddol yn disgrifio'r prif egwyddorion ac amcanion sydd gennym i leihau effaith gweithgareddau a gweithrediadau'r Gwasanaeth ar yr amgylchedd.

Mae'r Gwasanaeth yn llunio Adroddiad Amgylcheddol blynyddol, sy'n tynnu sylw at ein cyflawniadau a'n perfformiad amgylcheddol yn y flwyddyn flaenorol.

Yn 2019, cafodd y Gwasanaeth ei chweched ailasesiad llwyddiannus o'r bron ar gyfer Safon Rheolaeth Amgylcheddol y Ddraig Werdd, a hynny ar lefel 5, sef y lefel uchaf posibl. Mae'r safon yn cydnabod ymrwymiad y Gwasanaeth i welliannau amgylcheddol parhaus a deddfwriaeth amgylcheddol, a bu'n gymorth gwerthfawr o ran helpu'r Gwasanaeth i gyflawni'i amcanion amgylcheddol.

Yn y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi cymryd camau breision ymlaen o ran gwella'n heffaith ar yr amgylchedd trwy ychwanegu dau gerbyd a yrrir gan hydrogen at ein fflyd a defnyddio mwy o feiciau trydan ar gyfer teithiau lleol. Rydym wedi cynyddu ein defnydd o baneli ffotofoltäig ac wedi gosod paneli newydd ar ddau o'n hadeiladau mwy yn ddiweddar. Yn ogystal, gosodwyd goleuadau deuodau allyrru golau (LED) a thechnoleg arbed ynni yn y rhan fwyaf o'n gorsafoedd. Yn fwy diweddar, rydym wedi dechrau gosod pwyntiau gwefru cerbydau trydan ym Mhencadlys y Gwasanaeth, a fydd yn hwyluso defnyddio'r cerbydau trydan nad ydynt yn gerbydau ymateb a brynwyd yn ddiweddar iawn.

# Ble yr ydym am fod?

Ein bwriad yw bod yn wasanaeth tân ac achub sy'n gynaliadwy ac yn gydnaws â'r amgylchedd, ac sy'n ystyried datblygu cynaliadwy a materion amgylcheddol ym mhob proses benderfynu; gan gryfhau llesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ein cymunedau.

# Sut y byddwn yn cyflawni ein Nod Strategol?

Byddwn yn:

## Prynu ac yn defnyddio llai o blastig untro yn ein Gwasanaeth.

### Byddwn yn cyflawni hyn trwy wneud y canlynol:

- Lleihau'n sylweddol y defnydd o boteli dŵr plastig untro.
- Archwilio cyfleoedd i leihau cyfanswm y deunydd pacio plastig a ddefnyddir o amgylch nwyddau sy'n dod i'r Gwasanaeth.
- Ymchwilio i gyfleoedd i leihau neu i ddileu'r defnydd o ddeunydd pacio plastig untro, a gweithio gyda chyflenwyr yn hyn o beth, ac annog y defnydd o ddeunydd pacio ailgylchadwy.
- Ystyried cyfleoedd i ddefnyddio cynnyrch bob dydd nad ydynt yn blastig, a hyrwyddo dewisiadau amgen ecogyfeillgar.
- Adolygu ein Contractau Rheoli Gwastraff i sicrhau ein bod yn anfon cyn lleied â phosibl o eitemau i safleoedd tirlenwi.

### Y modd y byddwn yn mesur llwyddiant:

- Monitro faint o wastraff a gynhyrchir ar ôl dosbarthu;
- Monitro ffigurau casglu gwastraff trwy gontractau Gwastraff allanol;
- Monitro gostyngiad yn nifer y cynnyrch a brynir yn ystod 2020-2021 sy'n defnyddio plastig untro;
- Monitro cynnydd mewn perthynas â chynnyrch bioddiraddadwy a chynaliadwy a ddefnyddir yn ystod 2020-2021.

### Pryd:

- Bydd hyn yn cael ei gyflawni erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2020-2021.

## Lleihau defnydd y Gwasanaeth o ynni, a symud i strategaeth ynni fwy cynaliadwy.

Byddwn yn cyflawni hyn trwy wneud y canlynol:

- Gwella ein systemau ar gyfer monitro ynni ar draws holl stoc adeiladau y Gwasanaeth.
- Ystyried gwelliannau cynaliadwy i'n hystâd, lle bo hynny'n ymarferol, i wella ein seilwaith gwyrdd a'n storfa ynni.
- Cyflwyno perchnogaeth ragweithiol o'r defnydd o ynni ym mhob lleoliad Gorsaf.
- Gweithio i wella atebolrwydd a dealltwriaeth ymhlith yr holl staff o'r defnydd o ynni yn lleoliadau'r Gwasanaeth.
- Gweithio gyda phartneriaid allanol fel Llywodraeth Cymru a'r Ymddiriedolaeth Garbon i archwilio cyfleoedd i leihau'r defnydd o ynni ledled ein hystâd.

Y modd y byddwn yn mesur llwyddiant:

- Monitro faint o ynni a ddefnyddir gan y Gwasanaeth a data'n ymwneud ag ynni, a hynny trwy gyfrwng Darllenwyr Mesuryddion Awtomatig (AMR);
- Cynyddu ein hymgysylltiad â phartneriaid allanol a fydd yn arwain at sefydlu prosiectau ynni;
- Gwerthuso cydweithrediad â phartneriaid allanol mewn perthynas â gwelliannau a chyngor ar leihau ein defnydd o ynni ledled ein hadeiladau a'n hystad.

Pryd:

- Bydd hyn yn cael ei gyflawni erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2020-2021.

### Beth fydd hyn yn ei olygu i chi? Pam y mae hyn yn bwysig i chi?

Byddwn yn lleihau ein hallyriadau carbon yn sgil derbyn mwy o gyfrifoldeb am ein gweithgareddau a'u heffaith ar ein hamgylchedd trwy ein gweithrediadau a thrwy arbed ynni.

Byddwn yn ailddefnyddio ac yn ailgylchu mwy er mwyn lleihau'r gwastraff a gynhyrchwn. O ganlyniad, bydd llai o alw am adnoddau newydd a bydd llai o wastraff yn cael ei gynhyrchu ar ein safleoedd gan olygu bod llai o wastraff yn mynd i safleoedd tirlenwi.


TÂN FIRE
CK69 VNF


LEAF
CK69 VGD
www.tâncgc.gov.uk | www.mawwfire.gov.uk
0370 6060699

# Nod Strategol 3: EIN HAMGYLCHEDD

## Egwyddor Datblygu Cynaliadwy
## Pum Ffordd o Weithio

### Hirdymor

Pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a'r angen am ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd.

*Sut y mae'r nod strategol hwn yn cyfrannu at y pum ffordd o weithio?*

Ymchwilio i dechnolegau newydd a datblygol a datblygu mentrau gwyrdd penodol i gefnogi amcanion amgylcheddol y Gwasanaeth. Bydd hyn yn gofyn am gymorth o ran buddsoddiad a newid ymddygiad ac agweddau staff.

Canlyniad hirdymor y gwaith hwn fydd sicrhau gwasanaeth tân sy'n gyfrifol o safbwynt yr amgylchedd a gwella perfformiad amgylcheddol y Gwasanaeth, gwella defnydd effeithlon o'n hadnoddau a lleihau ein heffaith ar yr amgylchedd.

---

### Atal

Sut y gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion.

*Sut y mae'r nod strategol hwn yn cyfrannu at y pum ffordd o weithio?*

Trwy ddefnyddio technoleg a systemau meddalwedd technoleg gwybodaeth i fonitro a dadansoddi data er mwyn rhoi mesurau ataliol ar waith a chaniatáu i ni wella ein ffordd o weithio, gan leihau allyriadau carbon y Gwasanaeth a chael effaith gadarnhaol ar y gymuned a'r amgylchedd lleol.

## Integreiddio

Ystyried sut y gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar bob un o'u hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.

*Sut y mae'r nod strategol hwn yn cyfrannu at y pum ffordd o weithio?*

Cyflawnir nodau gwyrdd y Gwasanaeth trwy integreiddio ac ymgorffori prosesau cynaliadwy o safbwynt yr amgylchedd ar hyd a lled y Gwasanaeth, gan leihau effaith gweithgareddau'r Gwasanaeth ar yr amgylchedd ac ar gymunedau lleol.

## Cydweithio

Gallai cydweithredu ag unrhyw berson arall (neu wahanol adrannau yn y corff cyhoeddus ei hun) helpu'r corff i fodloni ei amcanion llesiant.

*Sut y mae'r nod strategol hwn yn cyfrannu at y pum ffordd o weithio?*

Byddwn yn cydweithio ag aelodau o'r Byrddau Gwasanaethau Lleol a sefydliadau allanol ar brosiectau amgylcheddol pellgyrhaeddol a fydd yn cael effaith gadarnhaol ar gymunedau lleol ac yn caniatáu rhannu arferion gorau a chyfleoedd i ddysgu gwersi.

## Cynnwys

Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal y maent yn ei gwasanaethu.

*Sut y mae'r nod strategol hwn yn cyfrannu at y pum ffordd o weithio?*

Mynd i fforymau cyhoeddus ac ymgysylltu â nhw er mwyn helpu i lywio penderfyniadau ynghylch gwella'n hamgylchedd lleol a helpu i lywio mentrau a nodau gwyrdd yn y dyfodol yn ein sefydliad ac mewn cymunedau lleol.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

# Nod Strategol 3:
# EIN HAMGYLCHEDD

## Crynodeb o sut y mae'r Nod Strategol yn galluogi'r Gwasanaeth i gyflawni'r Nodau Llesiant

### Cymru Lewyrchus

*Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas.*

Defnyddio technoleg werdd newydd ac arloesol i wella a chreu adeiladau mwy cynaliadwy ac ymchwilio i ddatblygu fflyd o gerbydau allyriadau isel iawn nad ydynt yn gerbydau ymateb er mwyn gwella ansawdd aer lleol a lleihau ôl troed carbon y Gwasanaeth Tân. Darparu seilwaith yng ngorsafoedd canolbarth a gorllewin Cymru i hwyluso gwefru cerbydau trydan mewn mannau strategol. Helpu i gysylltu cymunedau o gerbydau allyriadau isel iawn ac annog defnyddio cerbydau trydan a cherbydau hybrid yn hytrach na cherbydau syn llosgi tanwydd ffosil.

---

### Cymru Iachach

*Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deellir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol.*

Gweithio tuag at hybu bioamrywiaeth yn lleoliadau'r Gwasanaeth er mwyn gwella lles meddwl a gwella ansawdd aer lleol trwy leihau allyriadau carbon y Gwasanaeth trwy gyfrwng technoleg arloesol a chynaliadwy.

## Cymru Gydnerth

> *Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu inewid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd).*

Meithrin a gwella'r amgylchedd naturiol a bioamrywiaeth ar ein safleoedd lle bydd hynny'n bosibl, er mwyn caniatáu ecosystem iach ar dir y gwasanaeth tân ac ar dir cyfagos. Gweithio gyda phartneriaethau lleol i ddatblygu darpariaeth fapio, cynyddu ymwybyddiaeth ohoni a'i defnyddio yn ystod gweithrediadau mewn ardaloedd â gwerth bioamrywiaeth uchel i ganiatáu defnyddio'r dull rheoli gorau posibl.

---

## Cymru o Gymunedau Cydlynus

> *Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da.*

Cydweithio â phartneriaethau lleol a sefydliadau'r Byrddau Gwasanaethau Lleol er mwyn caniatáu trefniadau gweithio mwy cydlynus. Annog cydweithio â sefydliadau eraill ar brosiectau a allai fod yn gynaliadwy o safbwynt yr amgylchedd, e.e. lleoliadau strategol ar gyfer pwyntiau gwefru er mwyn gwella ansawdd aer lleol.

---

## Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

> *Cenedl sydd, wrth wneud unrhyw beth i wella llesiant Cymru yn economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol, yn ystyried a fydd gweithredu fel hyn yn cyfrannu'n bositif i lesiant byd-eang.*

Gweithio gyda chymunedau lleol i ddeall eu hanghenion amgylcheddol a chael effaith gadarnhaol ar lesiant. Ystyried effaith amgylcheddol pob agwedd ar ein gweithgareddau a sicrhau cyfraniad cadarnhaol ar gyfer y Gwasanaeth Tân a'r cymunedau a wasanaethwn fel ei gilydd.

# Nod Strategol 4: **EIN DYFODOL**

Byddwn yn clustnodi ffyrdd arloesol o gryfhau a gwella ein prosesau busnes a'n dulliau cyflenwi gwasanaethau i'n cymunedau.

## Ble yr ydym ni nawr?

Rydym yn defnyddio amryw o systemau meddalwedd technoleg gwybodaeth i gefnogi ein prosesau busnes. Fodd bynnag, mae'r rhain, at ei gilydd, yn systemau 'arunig' gyda gallu cyfyngedig i ryngweithredu ar draws y llwyfan technoleg gwybodaeth, ac o ran ein swyddogaethau gweinyddu, rydym yn orddibynnol ar systemau papur, biwrocrataidd.

O safbwynt gweithredol, mae ein prosesau wedi datblygu fesul tipyn yn ystod y 10-15 mlynedd ddiwethaf Mae lle sylweddol i ddatblygu'r prosesau hyn ymhellach trwy ddefnyddio technoleg gwybodaeth i gefnogi prosesu rheoli digwyddiadau critigol, e.e. terfynellau data symudol, a chasglu gwybodaeth yn sgil gweithrediadau.

## Ble yr ydym am fod?

Mae'r Gwasanaeth am gael llwyfan technoleg gwybodaeth sydd wedi'i ddatblygu a'i integreiddio'n llawn er mwyn gwella rhyngweithredu, lleihau beichiau gweinyddol a darparu prosesau darbodus.

Rydym am ddefnyddio technoleg yn well i leihau ein hôl troed carbon, lleihau costau a gwella effeithiolrwydd cyffredinol y sefydliad.

Mae'r Gwasanaeth am fanteisio ar bob cyfle i leihau'r peryglon y mae diffoddwyr tân a chymunedau yn eu hwynebu trwy ddefnyddio technoleg, ymchwil a datblygu a thrwy hynny greu diwylliant arloesi sy'n rhoi'r Gwasanaeth ar flaen y gad yn y sector golau glas.

## Sut y byddwn yn cyflawni ein Nod Strategol?

Byddwn yn:

**Datblygu seilwaith TG sy’n cefnogi ffyrdd amgen o weithio, gan ddefnyddio technoleg i leihau risg weithredol trwy’r ffordd yr ydym yn cyflwyno ein data gweithredol.**

Byddwn yn cyflawni hyn trwy wneud y canlynol:

- Datblygu systemau TGCh sy’n effeithlon ac yn effeithiol, ac sy’n cefnogi ffyrdd amgen o weithio.
- Gwella systemau cyfathrebu a gwella’r ffordd yr ydym yn rheoli ein data gweithredol.
- Sicrhau mynediad hawdd at yr wybodaeth gywir, sicrhau arferion cyfathrebu dwyffordd ar yr adeg iawn o’r lle iawn, gan ddefnyddio’r galedwedd gywir.

How we will measure the success:

- Gwerthuso’r gwaith o gyflwyno caledwedd cyfrifiadurol ymhob Gorsaf Dân a newid Terfynellau Data Symudol (MDT) ar beiriannau tân y rheng flaen, a hynny er mwyn nodi pa welliannau busnes sydd wedi cael eu gwireddu;
- Gwerthuso gwelliannau mewn perthynas â’r ffordd y caiff data gweithredol a gwybodaeth am risgiau eu cyflwyno.

Pryd:

- Bydd hyn yn cael ei gyflawni erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2020-2021.

# Creu fforwm i archwilio'r syniadau a'r awgrymiadau gan ein staff; melin drafod a fydd yn rhoi llais i'n Pobl i lywio gwelliant parhaus.

Byddwn yn cyflawni hyn trwy wneud y canlynol:

- Creu amgylchedd sy'n annog cyfathrebu effeithiol a thryloyw ac sy'n hygyrch i bob aelod o staff.
- Cynyddu ymgysylltiad staff ledled y Gwasanaeth trwy wrando ar eu barn, gan roi cyfle iddynt ddylanwadu ar y gwaith o newid a llywio dyfodol ein Gwasanaeth.
- Annog ymgysylltiad ehangach y gweithlu i nodi ffyrdd newydd a gwell o weithio.

Y modd y byddwn yn mesur llwyddiant:

- Gwerthuso lefel y cyfranogiad a'r ymgysylltiad gan staff ledled ardal y Gwasanaeth;
- Monitro'r broses o roi syniadau ac awgrymiadau gan staff ar waith.


Pryd:

- Bydd hyn yn cael ei gyflawni erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2020-2021.

## Beth fydd hyn yn ei olygu i chi? Pam y mae hyn yn bwysig i chi?

Bydd y modd yr ydym yn ymgymryd â'n gwaith yn newid er mwyn cadw i fyny ag anghenion ein cymunedau a staff.

Bydd hyn yn sicrhau bod y Gwasanaeth yn manteisio'n llawn ar bob cyfle i weithio'n effeithlon ac effeithiol wrth atal digwyddiadau o argyfwng, amddiffyn ein cyhoedd ac ymateb pan rydym yn derbyn yr alwad.



# Nod Strategol 4:
# EIN DYFODOL

## Egwyddor Datblygu Cynaliadwy
## Pum Ffordd o Weithio

### Hirdymor

Pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a'r angen am ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd.

*Sut y mae'r nod strategol hwn yn cyfrannu at y pum ffordd o weithio?*

Byddwn yn defnyddio technoleg gwybodaeth i leihau ein hôl troed carbon a gwella ein dulliau gweithredu. Bydd gofyn darparu cymorth buddsoddi a hyfforddi, a newid ein ffordd o weithio. Canlyniad mwy hirdymor y gwaith hwn fydd sefydliad mwy clyfar a darbodus, sy'n gallu atal, amddiffyn ac ymateb yn fwy effeithiol.

### Atal

Sut y gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion.

*Sut y mae'r nod strategol hwn yn cyfrannu at y pum ffordd o weithio?*

Mae defnyddio technoleg gwybodaeth ar gyfer dadansoddi patrymau a dadansoddeg ragfynegol yn ein helpu i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth am y math o ymyrraeth a ble a sut y dylai ddigwydd. Mae'n fodd i'r Gwasanaeth ymateb yn fwy priodol i anghenion ein cymunedau, gan leihau'r peryglon y mae ein diffoddwyr tân rheng flaen yn eu hwynebu.

## Integreiddio

Ystyried sut y gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar bob un o'u hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.

*Sut y mae'r nod strategol hwn yn cyfrannu at y pum ffordd o weithio?*

Trwy wella ein prosesau technoleg gwybodaeth a busnes ar draws y sefydliad ac integreiddio hynny yn ein ffordd o weithio, byddwn yn gwella'r gwasanaeth a ddarparwn i'n cymunedau. Bydd yn gymorth hefyd i ni integreiddio â gwasanaethau golau glas a phartneriaid eraill a gweithio'n fwy cynhwysfawr i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus ehangach.

---

## Cydweithio

Gallai cydweithredu ag unrhyw berson arall (neu wahanol adrannau yn y corff cyhoeddus ei hun) helpu'r corff i fodloni ei amcanion llesiant.

*Sut y mae'r nod strategol hwn yn cyfrannu at y pum ffordd o weithio?*

Bydd gweithio gyda sefydliadau partner a thrydydd partïon, rhannu arferion gorau a rhyngweithredu mwy yn gymorth i ni ac eraill ymgorffori gwelliannau parhaus, a sicrhau, ar yr un pryd, na fydd ein cymunedau ond yn derbyn gwasanaeth o'r radd flaenaf.

---

## Cynnwys

Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal y maent yn ei gwasanaethu.

*Sut y mae'r nod strategol hwn yn cyfrannu at y pum ffordd o weithio?*

Trwy greu fforymau sy'n cynnig mynediad i bawb, byddwn yn sicrhau cyfraniad torfol wrth benderfynu ar ein ffyrdd o weithio yn y dyfodol. Trwy ddefnyddio'r doethineb torfol hwn sy'n deillio o'r tu mewn i'r sefydliad a'r tu allan iddo, byddwn yn sicrhau ein bod yn parhau i hoelio'r sylw ar anghenion ein pobl a'r cyhoedd.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

# Nod Strategol 4:
# EIN DYFODOL

Crynodeb o sut y mae'r Nod Strategol yn galluogi'r Gwasanaeth i gyflawni'r Nodau Llesiant

## Cymru Lewyrchus

*Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas.*

Bydd ein rhaglen ddigido yn fodd i ni wella'r ffordd y darparwn ein gwasanaethau, gan roi gwell gwybodaeth a data deallus i'n staff wrth iddynt hwythau gynorthwyo ein cymunedau ar faterion atal, diogelu ac ymateb. Byddwn yn chwilio'n weithredol am offer, arferion a phrosesau newydd er mwyn sicrhau bod ein personél gweithredol a'r cymunedau a wasanaethwn yn derbyn y lefelau gorau posibl o ddiogelwch ac amddiffyniad.

---

## Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

*Cenedl sydd, wrth wneud unrhyw beth i wella llesiant Cymru yn economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol, yn ystyried a fydd gweithredu fel hyn yn cyfrannu'n bositif i lesiant byd-eang.*

Byddwn yn cynnal ymchwil a datblygu effeithiol er mwyn cyfrannu at greu sefydliad arloesol a chynhyrchiol sy'n cydnabod cyfyngiadau'r amgylchedd byd-eang ac yn defnyddio adnoddau'n effeithlon ac yn gymesur.

## Cymru sy'n fwy Cyfartal

*Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd).*

Bydd Cymru sy'n fwy Cyfartal yn derbyn cymorth wrth i ni roi'r gwahanol argymhellion sy'n deillio o Raglen Adolygu'r Gwasanaeth ar waith, trwy archwilio cyfleoedd i ddatblygu ein pobl yn fwy cyfannol er mwyn eu helpu i gyrraedd eu llawn botensial, beth bynnag fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau. Gall gwella cysylltedd a digido ein helpu i ddarparu ein gwasanaethau brys a gwasanaethau diogelwch cymunedol i ddinasyddion, gan sicrhau y gallwn ddarparu cyngor a rhaglenni ymyrraeth i helpu unigolion wella eu ffordd o fwy.

---

## Cymru Gydnerth

*Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu inewid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd).*

Byddwn yn parhau i ystyried defnyddio technoleg ac arloesedd newydd yn ein gwasanaeth, lle y gallwn ddeall ein heffaith ar yr amgylchedd yn well a lleihau ein hôl troed carbon. Byddwn yn cryfhau ein holl bartneriaid trwy gael y budd mwyaf o'n strategaeth, polisïau a chynlluniau rheoli asedau, a thrwy gynnwys partneriaid mewn dewisiadau yn y dyfodol.

---

## Cymru o Gymunedau Cydlynus

*Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da.*

Byddwn yn cyfrannu at Gymru o Gymunedau Cydlynus wrth i ni ystyried a defnyddio cyfleusterau yn y gymuned a gweithio ar y cyd â sectorau a sefydliadau newydd a chyfredol. Bydd hyn oll yn gymorth i feithrin synnwyr o berthyn ac undod ymhlith cymunedau sydd â chysylltiadau da. Pan fyddwn yn datblygu prosiectau a phrosesau newydd, byddwn yn ymgysylltu â rhanddeiliaid a phartneriaid allweddol yn y gwasanaethau brys eraill ac mewn sectorau eraill, gan gyfrannu at greu cymunedau mwy diogel sydd â gwell cysylltiadau.

# Rhagor o wybodaeth

Mae ein gwefan yn cynnwys gwybodaeth fanylach am y meysydd yr adroddwyd amdanynt yn y ddogfen hon. Yn y rhan o'n gwefan sy'n ymwneud â pherfformiad, cewch wybodaeth am y canlynol:

- Cynlluniau Corfforaethol
- Cynlluniau Gwella Blynyddol
- Adroddiadau Ymgynghori
- Adroddiadau Swyddfa Archwilio Cymru
- Adroddiadau ynghylch Dangosyddion Perfformiad Cymru
- Siarter Ymateb i Danau mewn Anheddau ar gyfer Cymru Gyfan

Byddem yn croesawu eich sylwadau neu'ch awgrymiadau ar gyfer gwella cynlluniau yn y dyfodol.

I roi adborth, gallwch gysylltu â ni trwy ein gwefan **www.tancgc.gov.uk** trwy ffonio **0370 60 60 699** neu trwy ysgrifennu atom: Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, Heol Llwyn Pisgwydd, Caerfyrddin, SA31 1SP.

Fel arall, gallwch anfon neges e-bost atom **post@tancgc.gov.uk**

## Fersiynau Amgen

Mae'r ddogfen hon ar gael mewn fformatau hygyrch hefyd. Os hoffech gael yr wybodaeth hon mewn iaith neu fformat arall, gan gynnwys ffeil sain.

Cysylltwch â ni trwy ffonio: **0370 60 60 699**
neu trwy anfon neges e-bost i: **post@tancgc.gov.uk**

**HOFFI** DILYN **RHANNU**
**LIKE** FOLLOW **SHARE**

**Ein Negeseuon Diogelwch**
Our Safety Messages

**Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg – byddwn yn ymateb i'r ddwy iaith yn gyfartal a byddwn yn ateb yn eich dewis iaith heb oedi.**

**Rydym yn croesawu galwadau yn Gymraeg ac yn Saesneg.**